Adroddiad i'r	Cabinet, 24 Ionawr 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cyng. Jason McLellan, Arweinydd a'r Aelod Arweiniol ar gyfer Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd / Liz Grieve, Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata
Awdur yr adroddiad	Nicola Kneale, Cyd-bennaeth Dros Dro, Gwella Busnes a Moderneiddio
Teitl	Ceisiadau blwyddyn 1 i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a diweddariad cyffredinol ynglŷn â'r broses a'r amserlen ar gyfer rowndiau ceisiadau'r dyfodol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ceisiadau i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a argymhellir i'w cymeradwyo gan y Cabinet, a diweddariad cyffredinol ar brosesau ac amserlen ymgeisio yn y dyfodol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad ynglŷn ag ariannu'r ceisiadau amgaeedig, ac mae angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r camau nesaf o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ceisiadau, yn seiliedig ar argymhellion gan y Grŵp Partneriaeth Craidd.

3.2. Bod y Cabinet yn ystyried y wybodaeth am brosesau ac amserlenni ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol (Atodiad B) ac yn cynghori ar y camau nesaf.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae £21.2 miliwn ar gael i gymunedau Sir Ddinbych trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU rhwng 2022 a diwedd Mawrth 2025 ar draws tair thema blaenoriaeth buddsoddi: Cymunedau a Lle; Cefnogi Busnesau Lleol a Phobl a Sgiliau. Mae'r cyllid yn rhan o gyfres o fuddsoddiad Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

4.2. Wrth ddisgwyl i Lywodraeth y DU gymeradwyo'r Cynllun Buddsoddi ddiwedd Tachwedd, gwahoddwyd y Tîm Arwain Strategol i ddatblygu ceisiadau ar gyfer gwario cyllid blwyddyn 1. Sylwer, mae'r gwahoddiad i wneud cais am gyllid blwyddyn 1 wedi ei gyfyngu i'r awdurdod lleol yn unig oherwydd nad yw telerau'r cyllid rhwng Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol wedi eu cytuno (ac felly'n cyflwyno lefel o risg ariannol oedd yn annerbyniol). Dylai'r holl geisiadau fod hyd at fis Mawrth 2023 yn unig, a gallu eu gwario a'u cyflawni erbyn hynny.

4.3. Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth y DU, sefydlwyd Grŵp Partneriaeth '…*i gynghori ar gydweddiad strategol a'r gallu i gyflawni…*' Mae ceisiadau wedi eu rhannu gyda'r Grŵp Partneriaeth a gofynnwyd am sylwadau. Yna rhannwyd hyn gydag is-set o'r Grŵp Partneriaeth - y Grŵp Craidd - sy'n gallu gwneud argymhellion i'r Cabinet ar beth i'w ariannu yn seiliedig ar gydweddiad strategol, y gallu i gyflawni a fforddiadwyedd. Mae'r Grŵp Craidd yn cynnwys y canlynol:

- Arweinydd CSDd (Cadeirydd):
- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi, yr Amgylchedd a Chymunedau
- Aelod Arweiniol: Strategaeth, Polisi a Chydraddoldeb Corfforaethol
- Uwcharolygydd Ardal Conwy a Sir Ddinbych, Heddlu Gogledd Cymru
- Prif Swyddog Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Prif Swyddog Cadwyn Clwyd

4.4. Mae Atodiad A yn crynhoi'r prosiectau a argymhellwyd i gael cyllid. Nid yw'r dyraniad blwyddyn 1 wedi ei ymrwymo'n llawn, gyda'r manylion fel a ganlyn (sylwer, mae angen cytundeb cenedlaethol ynghylch sut y bydd Lluosi yn cael ei ddyrannu).

Crynodeb Dyraniad Blwyddyn 1 UKSPF CSDd

	Cyfalaf £	Refeniw £	Refeniw: Lluosi £	CYFANSWM £
DYRANIAD UKSPF	850,000.00	1,725,096.00	669,525.00	3,244,621.00
Tynnu Gwariant:				
4% Gweinyddol wedi ei Ymrwymo	0.00	103,004.00	0.00	103,004.00
Ceisiadau 1 - 12	*497,602.00*	*1,370,747.00*	0.00	*1,868,349.00*
CYFANSWM GWARIANT	497,602.00	1,473,751.00	0.00	1,971,353.00
YN WEDDILL	352,398.00	251,345.00	669,525.00	1,273,268.00

Mae hyn yn gyfwerth â thanwariant o bron i £604,000 yn 2022-23.

4.5. Argymhellion gan y Grŵp Craidd yw i ariannu'r prosiectau, nodir y manylion yn Atodiad A.

4.6. Mae Atodiad B yn amlinellu'r broses a'r amserlen ar gyfer agor gwahoddiadau pellach i wneud cais ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae hefyd yn amlygu'r risgiau i'r prosesau a'r amserlenni hynny, a'r mesurau lliniaru arfaethedig.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer y SPF wedi ei ddatblygu o fewn cyd-destun ein blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd costau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwn yn cael eu talu gan y dyfarniad gweinyddu 4% sy'n rhan o'r dyraniad SPF.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid yw'n angenrheidiol ar gyfer y panel hwn. Roedd y cynllun buddsoddi angen Asesiad o'r Effaith ar Les.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes gan graffu swyddogaeth swyddogol yn y broses hon. Fel nodwyd yn flaenorol, mae canllawiau Llywodraeth y DU yn nodi'r angen ar gyfer Grŵp Partneriaeth i gynghori ar benderfyniadau buddsoddi, er mwyn cefnogi tryloywder, atebolrwydd, a sicrhau gwerth da am arian.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel nodwyd yn 4.2, mae'r ceisiadau ar gyfer blwyddyn 1 y cynllun buddsoddi wedi eu cyfyngu i'r awdurdod lleol i liniaru'r risg oherwydd yr amserlenni tynn i gyflawni'r cynlluniau hyn erbyn Mawrth 2023. Fel nodwyd yn 6.1, mae costau cynlluniau blwyddyn 1 a chostau cefnogi cysylltiedig yn cael eu hariannu'n llawn gan grantiau.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r amserlen dynn i ymgeiswyr gyflawni yn cynrychioli her. I oresgyn hyn, byddwn yn rhannu cymaint o wybodaeth â phosib i helpu ymgeiswyr i baratoi ceisiadau, a chefnogi ymgeiswyr llwyddiannus i helpu i sicrhau bod prosiectau yn effeithiol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae swyddogaethau datblygu economaidd y Cyngor yn gyfrifoldeb ar y Cabinet yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.

11.2. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol dan a.24 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021